

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



YSGOL I.D. HOOSON

11.11.20

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Presenoldeb - Rydym mewn cyfnod anodd o ran Covid-19, ac mae pob un ohonom yn ceisio gwneud ein gorau i gadw ein hunain ac eraill yn ddiogel. O ran yr ysgol, rydym wedi cael achosion o Covid-19 sydd wedi arwain at rai dosbarthiadau wedi gorfod gweithredu cyfnodau o hunan ynysu. Er ein bod yn ymwybodol o'r anghyfleustra mae hyn yn gallu ei achosi, mae'r camau yn ofynol o ran iechyd a diogelwch a lleihau risg o ymlediad y firws i eraill, gan gynnwys disgyblion, staff a rhieni. O ran presenoldeb, os nad yw eich plentyn yn sal, yn dangos symptomau o Covid-19, neu yn hunan ynysu yn dilyn cyngor meddygol, yna dylai eich plentyn fynychu yr ysgol. Os na fydd eich plentyn yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd achos yn ymwneud a Covid-19 yn yr ysgol, yna bydd yr ysgol wedi eich hysbysu o hyn. Mae presenoldeb pob plentyn yn yr ysgol yn allweddol i'w cynnydd a'i datblygiad academaidd, yn arbennig gan fod cyfnod hir wedi bod o'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae canllawiau presenoldeb yr Awdurdod Lleol a anfonwyd allan yn ddiweddar yn cynnwys gwybodaeth bwysig o ran Covid-19. A fydddech cystal a chysylltu ar ysgol cyn 9.30 os nad yw eich plentyn yn mynychu ysgol, gan roi eglurhad am yr absenoldeb.

Plant mewn Angen - Cofiwch mai ar ddydd Gwener Tachwedd y 13eg y byddwn yn cefnogi ymgyrch Plant Mewn Angen. Ein thema am y dydd fydd 'Gwisgo het wirion'. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad gan unrhyw un a fydd yn cymryd rhan. Gall y plant wisgo gwisg ei hunain yn hytrach na gwisg ysgol.

Dangos Cerdyn Coch - Diolch i bawb a wnaeth gefnogi ein diwrnod Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth. Llwyddwyd i gasglu £180 tuag at yr ymgyrch.

Mini Marathon - Bu'r mini marathon yn llwyddiannus iawn. Bu'r ysgol i gyd yn cymryd rhan yn y rhedeg o amgylch cae yr ysgol cyn yr hanner tymor, a llwyddwyd i gasglu £2800 tuag at yr ysgol. Mae hyn yn ardderchog wir. Hoffwn ddiolch i bawb wnaeth gefnogi'r plant. Byddwn yn defnyddio'r arian ar gyfer prynu adnoddau darllen, offer chwarae buarth a bydd pob dosbarth yn derbyn arian ar gyfer prynu adnoddau dosbarth penodol.

Adroddiad cynnydd - Yr wythnos nesaf, byddwch yn derbyn adroddiad cryno ar gynnydd eich plentyn. Gan nad ydym mewn sefyllfa i fedru gwahodd rhieni/ofalwyr i'r ysgol ar gyfer nosweithiau rhieni arferol, mae athro/awes dosbarth eich plentyn wedi crynhoi gwybodaeth allweddol am gynnydd eich plentyn ers cychwyn y tymor. Rydym yn mawr obeithio y bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i chi, a bydd cyfle i chi ymateb i'r sylwadau neu holi unrhyw gwestiwn am yr adroddiad drwy e.bostio yr athro/awes ddosbarth. Gan fod yr ysgol yn awr yn osgoi anfon copiau papur o lythyron allan i rieni/gofalwyr, ac i sicrhau cyfrinachedd, anfonir yr adroddiadau drwy gyfrif Hwb eich plentyn. Os ydych yn ansicr o sut i gael mynediad i'r cyfrif, neu yn methu cael mynediad i'r adroddiad, yna a fydddech cystal a chysylltu gyda'r athro/awes ddosbarth drwy e.bost.

Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglyn a'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus, Cadwch yn saff.

Yn gywir,

Rhodri Jones
Pennaeth